**Y siwrnai**

Ry’n ni’n hedfan drwy'r gofod ar gilcyn o ddaear go gyffredin sy’n cylchdroi ar ei hechel, ac o amgylch pelen enfawr o blasma crasboeth, ar gyflymder hollol boncyrs. Mae’r belen grasboeth mor gynnes fel fod gronnynau bychain yno yn sticio at ei gilydd i greu elfennau mwy, sy’n gerrig sylfaen i bopeth a ganfyddwn, gan greu mwy a mwy o wres. Ac mae'r belen ei hun yn hyrddio drwy'r gofod i'r dyfodol fel un o sêr go gyffredin ein galaeth, un o alaethiau go gyffredin ein bydysawd, sydd ei hun wedi ehangu o un pwynt cychwynol dros filoedd o filiynau o flynyddoedd. A ‘does neb â’r un clem sut a pham ddechreuodd y cyfan oll! Am siwrnai! Dros gyfnod maith, rhywffordd neu gilydd datblygodd bywyd ar ein Daear, bywyd a gyd-esblygodd yn filiynau o rywiogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae’r ddynoliaeth yn rhan o'r rhyfeddod hwn, â’r ddawn i greu cymdeithas sy'n aml yn ffynhonnell allgarol o hapusrwydd, gofal a chysur. Ac â bod yn onest, mae bodolaeth y bydysawd, a’n rhan ni ynddo, tu hwnt i'n deall. Mae’n hymwybyddiaeth o'n bodolaeth a’n bydysawd, a’n gallu i ddechrau rhesymegu amdano, yn wyrthiol.

Daeth ebost Siân Eryddon yn gofyn i mi gyfrannu at rifyn Ionawr y Bedol ar ddiwrnod siwrnai arall, siwrnai i Praha ar Sul cyntaf Adfent y llynedd i ddathlu gŵyl Mikuláš (Sant Niclas) gyda’n teulu yno. Trannoeth aethom am dro o gylch rhai o farchnadoedd Nadolig y ddinas, gan ddechrau â Staroměstské Náměstí (Sgwâr yr Hen Dref). Yno, er y goeden enfawr brydferth llawn lliw, a’r stondinau’n gwerthu svařák (gwin cynnes), a’r torfeydd, ac yn sŵn yr hen garolau česky (yr iaith Tsieceg), i mi ‘roedd cofgolofn a geiriau Jan Hus “Milujte se, pravdy každému přejte” (Carwch eich gilydd, dymunwch y gwirionedd i bob un) yn dominyddu’r olygfa. Athro a diwinydd oedd Hus yn y 15fed ganrif, rhyw fath o ragflaenydd i'r diwygiad Protestannaidd, ac arwr i’r werin. Roedd ei eiriau’n f’atgoffa o weledigaeth arwr arall o Almaenwr, Dietrich Bonhoeffer, yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif, a ddywedodd “Kein Mensch auf der ganzen Welt kann die Wahrheit verändern. Man kann sie nur suchen, sie finden und ihr dienen. Die Wahrheit ist an jedem Ort.” (Ni all unrhyw un yn y byd i gyd newid y gwir. Ni all neb ond ei geisio, dod o hyd iddo a'i wasanaethu. Mae’r gwir ym mhobman.) Crwydro draw wedyn i farchnad Náměstí Míru (Sgwâr Heddwch), islaw basilica Ludmila, â’r geiriau canlynol yn deitl i boster yn y cyntedd: “Štěstí začíná uvnitř” (Mae hapusrwydd yn dechrau ar y tu fewn). Cynghorai’r poster mai drwy weld y da o’n cwmpas, a gwneud popeth da yn ein gallu y delai hapusrwydd i'n rhan. ‘Nol eto i Václavské Náměstí (Sgwâr Wenseslas) a thrwy ryfedd ras dod o hyd i eiriau’r Dalai Lama “Nid oes llwybr at fodlondeb; bodlondeb yw’r llwybr” wedi eu cerfio ar fainc ar ymyl y palmant yn česky a’r Saesneg.

Gan feddwl ‘nôl heddiw ar ddechrau blwyddyn arall, â bywyd eisioes wedi ailgydio’n ei rythm heintus, digyfaddawd, â rhai o’n “harweinwyr” yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol fel petaent yn benderfynol o ymgnawdoli a llwyfannu’r gwaethaf yn y ddynoliaeth, ‘roedd fel petai rhywun neu rhywbeth yn trïo siarad ‘da fi yno ym mhrydferthwch Praha ar ddechrau cyfnod yr Adfent. Yn wir, mae'r cyfan yn gwneud i ddyn feddwl am stori’r newyddiadurwr aeth i holi’r Fam Teresa ynghylch y ffordd y byddai’n mynd ati i weddïo, a hithau'n dweud mai gwrando y byddai gan fynychaf. A'r newyddiadurwr, efallai’n synhwyro “stori”, yn gofyn ymhellach, “Wel, beth mae Duw’n dweud?” A hithau’n ateb “O, gwrando mae Yntau hefyd.” Yn union.

Mae ‘na dipyn o sôn wedi bod yn ddiweddar am sefyllfa’r nifer bach yn ein plith sydd wedi dioddef dan boen cyflwr angheuol dros gyfnod estynedig, ac wedi cael hen ddigon er y gofal derbyniant. Mae’n sefyllfa hynod anodd, ac anodd yw trafod a rhesymu amdani’n gytbwys. Ond mae’n sefyllfa sy’n debyg o gyffwrdd pob yr un ohonom. Gwelaf egwyddor y dymuniad didwyll i ddod â siwrnai bersonol i ben ychydig yn gynnar o dan y fath amgylchiadau. Ond ar yr un pryd, teimlaf byddai cynnig a derbyn y gofal gorau yn fodd i osgoi gorfod dewis dod â bywyd i ben yn fwriadol. Yng nghanol gofid, prysurdeb a llawenydd bywyd, digon hawdd anghofio fod pob un wan jac ohonom yn rhannu siwrnai anhygoel. Hyd yn oed pan allai’r amgylchiadau fod yn well, efallai dylsem ddechrau ystyried y sefyllfa gyda'r gobaith fod siawns i bob un brofi o wyrth bodolaeth, a chyfrannu ati’n gadarnhaol? Rhyfeddwch at wibdaith ein Daear drwy'r gofod dibendraw, at brydferthwch natur, at gwmni cyd-ddyn, a chofiwch am Hus a Bonhoeffer, Ludmila, y Dalai Lama a’r Fam Teresa. A gwnewch y gorau o’r siwrnai yn 2025!